



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhwystrau sy'n wynebu Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol wrth Gael at Wasanaethau Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu, a Thrais Rhywiol

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil cymdeithasol

Rhif: 48/2014

Mae'r ymchwil hwn yn nodi'r rhwystrau penodol a allai fod yn wynebu pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) yng Nghymru wrth gael at gymorth priodol ar gyfer profiadau o gam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu a thrais rhywiol. Yn y canfyddiadau, nodir cyfleoedd clir i ddatblygu'r gwasanaethau yn y dyfodol a chael arferion mwy effeithiol, cynhwysol.

Canfyddiadau:

- Yn ôl yr ymchwil, mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) sy'n destun cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu a thrais rhywiol yn gallu wynebu rhwystrau penodol rhag cael at wasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys "rhwystrau unigol" mewn perthynas â'u gwybodaeth a'u canfyddiadau, "rhwystrau rhyngpersonol" mewn perthynas â phobl eraill yn eu rheoli a'u cam-drin ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth o ran rhywedd, a "rhwystrau strwythurol a diwylliannol" mewn perthynas â'r ffordd y cynlluniwyd gwasanaethau presennol o ystyried anghenion menywod heterorywiol, cis-rywiol.¹
- Roedd yr ymchwil yn nodi amryw gyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau ymhellach i sicrhau eu bod yn cynnig y cyfrinachedd a'r tryloywder penodol sydd eu hangen ar bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, eu bod yn cynnwys y bobl hyn, a bod aelodau staff yn sensitif ac yn wybodus am eu hanghenion.
- Mae'r argymhellion yn amlygu bod cyfle i Lywodraeth Cymru hyrwyddo gwell mynediad at wasanaethau priodol a ddarperir i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.
- Roedd yr astudiaeth yn cynnwys asesiad o dystiolaeth, cyfweiliadau ansoddol â 18 o weithwyr proffesiynol, a chyflwyniadau ysgrifenedig gan 34 o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ledled Cymru.

¹ Pobl nad ydynt yn drawsrywiol: mae eu cyrff, eu hunaniaeth bersonol a'r rhywedd a gawsant drwy enedigaeth yn cydweddu.

Nodau a dulliau'r ymchwil

Mae pawb sy'n cael profiad o gam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu a thrais rhywiol yn wynebu rhwystrau rhag cael at gymorth. Fodd bynnag, yn ystod y ddegawd ddiwethaf, daethpwyd yn fwy ymwybodol o'r ffyrdd y gall pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws (LGBT) wynebu rhwystrau sy'n benodol i'w cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth o ran rhywedd. Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth, cyfweiliadau ansoddol â 18 o weithwyr proffesiynol o'r sector LGBT a'r sector trais rhywiol a domestig yn gweithio yng Nghymru, a chyflwyniadau ysgrifenedig ar-lein gan 34 o bobl LGBT. Nod yr ymchwil oedd:

- Nodi'r rhwystrau sy'n gallu wynebu pobl LGBT wrth gael at wasanaethau cymorth at gam-drin domestig, stelcian, aflonyddu a thrais rhywiol (DASH/SV);
- Nodi enghreifftiau o arfer effeithiol o ran lliniaru'r rhwystrau hyn; a
- Chynnig argymhellion ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.


Y sail dystiolaeth bresennol

Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth yn nodi sail dystiolaeth gyfyngedig, ond un sy'n cyflym ddatblygu, yn canolbwyntio ar brofiadau pobl LGBT o DASH/SV, a'r rhwystrau a wynebant wrth gael at wasanaethau. Fodd bynnag, mae mwyafrif y llenyddiaeth sydd ar gael yn canolbwyntio ar drais o natur bersonol rhwng partneriaid yn hytrach na mathau eraill o gam-drin domestig a thrais rhywiol, a phrin fu'r ymchwil sy'n mynd i'r afael â chyd-destun penodol Cymru. Roedd ein hymchwil ansoddol dilynol yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r bylchau hyn yn y dystiolaeth.

Y rhwystrau rhag cael at gymorth priodol, yn ôl pobl LGBT a gweithwyr proffesiynol

Bu pobl LGBT sy'n byw yng Nghymru a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy yn disgrifio'r ffyrdd y gallai profiadau o DASH/SV a throeddau casineb groestorri yn eu bywydau. Fel y dengys y diagram ar y dudalen nesaf, er enghraifft, gall troeddau casineb gynnwys aflonyddu a thrais rhywiol, neu gall pobl LGBT gael eu targedu gan drosedd casineb o

ganlyniad i'w profiadau o gam-drin domestig.



Rhwystrau unigol

Amlygodd y cyfranogwyr proffesiynol ac ar-lein bedwar rhwystr mewn perthynas â gwybodaeth, canfyddiadau a chredoau unigol pobl LGBT:

- Diffyg gwybodaeth am y cam-drin sy'n digwydd ym mherthnasoedd pobl LGBT, a diffyg cydnabod y gamdriniaeth

hon;

- Diffyg gwybodaeth am wasanaethau sy'n gyfeillgar i pobl LGBT, a diffyg cysylltiad â'r gwasanaethau hyn;
- Diffyg sicrwydd am eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd a/neu'r gallu i fod yn agored am hyn i eraill;

- Rhoi'r bai ar eu hunain mewn perthynas â'u profiad o gam-drin.

Rhwystrau rhyngbersonol

Soniodd y cyfranogwyr y gall y rhwystrau unigol hyn gael eu gwaethygu gan ffactorau ym mherthnasoedd pobl LGBT, yn enwedig y berthynas â'r sawl sy'n cyflawni trosedd.

- Profiad o dactegau rheoli gan y sawl sy'n cyflawni trosedd, sy'n canolbwyntio ar gyfeiriadedd rhywiol yr unigolyn neu ei hunaniaeth o ran rhywedd, fel bygwth "datgelu" rhywun;
- Poeni y gallai defnyddio gwasanaethau eu "datgelu" yn anfwriadol i eraill ac arwain at fathau o gam-drin, fel troseddau casineb neu gam-drin homoffobig/ deuffobig/ trawsffobig gan bobl eraill lle maent yn byw.

Rhwystrau strwythurol a diwylliannol

Fodd bynnag, nid yw rhwystrau unigol a rhyngbersonol yn llawn egluro pam nad oes cynrychiolaeth ddigonol i bobl LGBT mewn gwasanaethau DASH/SV. Nododd y cyfranogwyr bedwar maes lle gall

strwythur a diwylliant gwasanaethau greu rhwystrau sy'n atal pobl LGBT rhag cael atynt:

- Tybio heterorywioldeb mewn gwasanaethau a ddarperir;
- Y ffaith bod gwasanaethau sy'n rhannu'r rhywiau'n ddau mor gyffredin (e.e. gwasanaethau i fenywod yn unig);
- Lefel annigonol o amrywiaeth, gwybodaeth a sgiliau ymhlith y staff;
- Y ffaith bod darparwyr gwasanaeth yn bychanu profiadau pobl LGBT o gam-drin.

Cyfleoedd i ddatblygu

Nododd y cyfranogwyr rai enghreifftiau o arfer addawol yng Nghymru. Ar y cyfan, roedd y gweithwyr proffesiynol yn awyddus i wella eu hymateb i bobl LGBT sy'n cael profiad o DASH/SV, gan gydnabod bod angen adnoddau digonol i wneud hyn.

Roedd barn y cyfranogwyr am gyfleoedd i ddatblygu yn perthyn i dair thema fras: mynediad hyblyg a chyfrinachol at gymorth, gwasanaethau cynhwysol i bobl LGBT, a staff gwybodus ac amrywiol. Amlinellir y rhain yn y tabl isod, ac fe'u hadlewyrchir yn yr

argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Mynediad hyblyg a chyfrinachol	<ul style="list-style-type: none">- Cymorth heb fod wyneb yn wyneb e.e. ar-lein, dros y ffôn- Gwasanaeth galw heibio / amseroedd apwyntiad cyfleus- Mynd i'r afael â phryderon am gyfrinachedd
Gwasanaethau cynhwysol i bobl LGBT	<ul style="list-style-type: none">- Hyrwyddo gwasanaethau – iaith gynhwysol, gwaith partneriaeth rhwng y sectorau Trais Domestig / Rhywiol a LGBT- Hybu ymwybyddiaeth am brofiadau pobl LGBT o erledigaeth- Mynediad cyfartal at wasanaethau prif ffrwd- Sicrhau bod darpariaeth Trais Domestig / Rhywiol arbenigol ar gael i bobl LGBT
Staff gwybodus ac amrywiol	<ul style="list-style-type: none">- Bod staff yn deall profiadau penodol pobl LGBT o Drais Domestig / Rhywiol- Bod staff yn deall natur amrywiol cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd- Sicrhau nad yw staff yn tybio bod pawb yn heterorywiol, a sicrhau nac ydynt yn ystrydebol eu hagweddau at bobl LGBT- Bod aelodau staff yn amrywiol o ran eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth o ran rhywedd

Argymhellion

Ar sail canfyddiadau'r astudiaeth hon, argymhellwn nifer o gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wella mynediad pobl LGBT at wasanaethau priodol ar

gyfer cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu a thrais rhywiol.

Mynediad hyblyg a chyfrinachol

1. Dylai'r cymorth ffôn ac ar-lein presennol gael ei hysbysebu'n glir fel cymorth sydd ar gael i bobl LGBT.
2. Ymchwilio i bosibilrwydd datblygu a hyrwyddo ymhellach y gwasanaethau ar-lein yng Nghymru.
3. Annog darparwyr gwasanaeth i gyhoeddi gwybodaeth glir am yr hyn a fydd yn digwydd pan fydd rhywun yn datgelu camdriniaeth iddynt.

Gwasanaethau cynhwysol i bobl LGBT

4. Annog darparwyr gwasanaeth i hyrwyddo eu gwasanaethau i bobl LGBT.
5. Cefnogi'r rhai sy'n darparu gwasanaethau trais domestig a thrais rhywiol i gynnal gweithgareddau allgymorth sy'n targedu pobl LGBT.
6. Cefnogi darparwyr gwasanaethau LGBT a chymdeithasau cymunedol i hyrwyddo ymwybyddiaeth am gam-drin domestig, stelcian ac

- aflonyddu a thrais rhywiol yn y gymuned LGBT.
7. Annog mwy o waith partneriaeth rhwng gwasanaethau trais domestig a thrais rhywiol a chymdeithasau LGBT.
 8. Mapio i ba raddau mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei gweithredu'n iawn gan ddarparwyr llochesau menywod yn unig mewn perthynas ag atgyfeiriadau i fenywod traws.
 9. Darparu arweiniad clir i ddarparwyr llochesau¹ sy'n darparu gwasanaethau menywod yn unig a dynion yn unig ar sicrhau mynediad cyfartal at y gwasanaethau hyn i bobl draws.
 10. Ymchwilio i werth darparu gweithwyr LGBT arbenigol mewn gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol, a/neu weithwyr trais domestig a thrais rhywiol arbenigol mewn gwasanaethau LGBT.
 11. Datblygu cynllun clir sy'n nodi sut y bydd gwasanaethau cam-drin domestig yn cael eu gwneud ar gael i bobl yng Nghymru nad ydynt yn nodi eu

bod yn wryw nac yn fenyw. Ni ddylai'r cynllun hwn gyfaddawdu'r gwasanaethau menywod yn unig sydd ar gael ar hyn o bryd.

Staff gwybodus ac amrywiol

12. Cefnogi darparwyr gwasanaeth trais domestig a thrais rhywiol i sicrhau y gall eu staff arddangos eu bod yn deall bywydau pobl LGBT a'u profiadau penodol o gam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu a thrais rhywiol.
13. Annog awdurdodau lleol, yr heddlu ac asiantaethau sector cyhoeddus eraill i sicrhau bod staff sy'n cael cysylltiad â phobl sy'n dioddef camdriniaeth yn meddu ar sgiliau tebyg (fel uchod) mewn anghenion a phrofiadau pobl LGBT.

Monitro a gwerthuso

14. Monitro lefelau'r atgyfeiriadau LGBT at wasanaethau trais domestig a thrais rhywiol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
15. Monitro atgyfeiriadau at Linell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan lle nodir bod y dioddefwyr

¹ Er dylai pob gwasanaeth sy'n rhannu'r rhywiau'n ddau sicrhau ei fod ar gael i bobl draws, nododd yr astudiaeth fod hwn yn fater yn enwedig i lochesau yng Nghymru.

yn berson traws, a chanlyniad
yr alwad.

Ymchwil pellach

16. Ymchwilio i ddibynadwyedd yr
arf asesu risg cam-drin
domestig safonol o ran mesur
risg i bobl LGBT.
17. Mapio argaeledd rhaglenni
menywod sy'n cyflawni trosedd
a'r angen amdanynt.
18. Ymchwilio i weld a oes
rhwystrau penodol yn wynebu
pobl LGBT o leiafrifoedd ethnig
wrth gael at wasanaethau
priodol.

Awduron: Shannon Harvey, Martin
Mitchell, Jasmin Keeble, Carol
McNaughton Nicholls a Nilufer
Rahim, NatCen Social Research
4 Mehefin 2014
ISBN 978-1-4734-1420-4